**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AR 16 IONAWR 2024, AM 7:00 Y.H. DRWY ZOOM.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Richard Robinson, Hefin Jones, Philip Roberts, Gwynedd Williams, Alan Pritchard, Ann Lawton, Berwyn Parry Jones, Rhys Parry

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Beca Brown, Meirwen Lloyd

**CLERC:** Meirion Jones

**1249 I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod

**1250 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodir uchod

**1251. Datgan buddiant personol.**

Rhain yw datgan fel yn briodol

**1252. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 19 Rhagfyr 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**1253. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 19 Rhagfyr 2023**

Cais am loches bws ger Glyntwrog – cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Hamdden

**1254. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Lanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

Mae hi wedi bod yn fis tawel yn y Cyngor gan fod gwyliau'r Nadolig wedi mynd â thalp go fawr o'r cyfnod.

Yn y ward, bu i'r adran YGC roi camerâu o dan ddaear ger y llwybr i Glanffynnon o Ffordd Llanberis, yn dilyn gohebu hir yn ôl a 'mlaen ynglŷn â phroblemau llifogydd gwaelod Glanffynnon. Mae angen gwaith ar un o'r 'culverts' yn ôl yr hyn rwy'n ddeall, a bydd y camerâu yn gallu dangos yn union beth sydd angen.

Bu i gais cynllunio i godi dau dŷ a byngalo wedi ei addasu ger y Glyntwrog gael ei basio yn unfrydol yn y Pwyllgor Cynllunio ddoe.

Roeddwn yn falch iawn bod pawb wedi mwynhau y digwyddiad yn y Sefydliad Coffa cyn y Nadolig, gyda diolch i Bedwyr Parri, Annette Bryn Parri a Cegin Fach Emma am eu gwaith.

Byddaf yn cynnal digwyddiad arall debyg ar thema serch i gyd-fynd â'r dathliadau Ffolant am 11yb, Chwefror 17eg.

Rwyf hefyd wrthi yn trefnu digwyddiad efo Ysgol Brynrefail - eto yn y Sefydliad - ble fydd y plant sydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn cael cyfle i berfformio eu darnau.

Gyda diolch i Mantell Gwynedd a'u Partneriaid am y nawdd drwy'r Grant Unigedd ac Ynysigrwydd**.**

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**1255. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd gan Gynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor fod eu bod wedi cyfarfod cyn y cyfarfod yma i sefydlu praesept ar gyfer 2024 / 2025.

Adroddwyd hefyd yn dilyn cyfarfod rhwng y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc fod y clerc wedi gwneud cais am godi ei lwfans misol ar gyfer defnydd o ystafell yn ei gartref ynghyd a theithio o fewn yr ardal. Nid oedd y lwfans yma wedi ei godi ers i'r clerc gychwyn yn y swydd.

**Penderfynwyd:**

Codi praesept o £85,000 ar gyfer 2024 / 2025
Codi'r lwfans yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid.

**1256. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts fod y pwyllgor wedi cyfarfod am y tro cyntaf ar 8fed o Ionawr 2023 ymysg y materion a drafodwyd oedd:-

Etholwyd Y Cynghorydd Philip Roberts fel Cadeirydd a'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones fel is-gadeirydd tan ddyddiad y cyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai.

Pwrpas y cyfarfod oedd :

1. Sefydlu trefniadau ar gyfer Iechyd a Diogelwch aelodau etholedig o'r cyngor, ei gontractwyr, staff a gwirfoddolwyr.

2. Sefydlu taenlen amser i gario allan asesiadau risg ar wahanol weithgareddau.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd ymgymryd â'r gwaith i greu asesiadau risg ar gyfer gweithio yn unigol, ac wedyn creu asesiadau risg i'r cynllun dosbarthu bwyd, y Gampfa (Cwm y Glo), gweithio mewn tywydd garw ac asesiad risg i ymwneud ac aelodau) blinderus o'r cyhoedd.

Bydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 6ed am 6.30 y.h. dros Zoom. Pwrpas y cyfarfod yw ystyried yr asesiadau risg ar gyfer gweithio yn unigol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1257. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 8fed o Ionawr 2024. Ymysg y materion a drafodwyd oedd

a) Ysgrifennu a chyhoeddi FAQs ynglŷn â thorri gwair- i'w roi ar safle we'r Cyngor penderfynwyd ar gynnwys – drafft i ddilyn.

Asesiadau risg - dyddiad wedi trefnu nawr angen cyfarfod brys, arbennig, o'r is-bwyllgor ynglŷn â chyllido'r gwaith.

Disgwyl ymateb y contractwr torri gwair i drafod digwyddiad yn y fynwent mis Rhagfyr. Heb glywed ymhellach gan yr achwynwr.

Codi ffioedd 5% am 2024/5.

Pryder am gyflwr y lon i'r fynwent (o'r lon fawr i'r eglwys).

Nodwyd bod y blaenoriaethau blynyddol ,a gosod arwyddion a phlaciau a chreu polisi Cofebion i'r fynwent am 23/24 wedi'i chyflawni neu ar fin cael eu cyflawni.

Mae'r pwyllgor wedi adnabod ei flaenoriaethau ar gyfer 2024-25 fel a ganlyn.

a) Parhau a'r drefn asesiadau risg ar y cofebion a'r fynwent (gwaith blynyddol)

b) Parhau i gystadlu yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn (targed blynyddol)

c) Parhau i fonitro gofod yn y fynwent (gwaith blynyddol).

ch) Polisïau gwyrdd a bioamrywiol arbennig i'r fynwent

d) Adolygu rheolau'r fynwent (targed blynyddol)

dd) Adeiladu wal a ffensys yn y fynwent a chreu gofod trwy leihau'r maes parcio (24/25 ymlaen).

Cynllunio tymor hir (gweler dd, blaenoriaethau) : wal y fynwent ; disgwyl amcangyfrif o gostau gwaith ar y wal yn dilyn cyfarfod gyda chontractwr posib yn y fynwent,9.1.24.

Cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor 25/1/24 am 6.00 y.h. ar lein prif eitem adolygu gwariant iechyd a diogelwch 23/24

Cyfarfod ffurfiol nesaf yr is-bwyllgor 9/4/24 am 6.30 y.h. ar lein - prif eitem adolygu rheolau'r fynwent.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1258. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden ac Adnoddau**

Adroddwyd nid oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers y cyngor llawn ddiwethaf ond adroddwyd fod y pwyllgor yn cyfarfod ar 25ain o Ionawr 2024.

Adroddwyd ymhellach fod pris wedi derbyn ar gyfer adnewyddu ffens ar gae chwarae Pwll Moelyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1259. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Adroddwyd gan Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, cadeirydd y Pwyllgor eu bod wedi cyfarfod cyn y Nadolig i drafod cais am grant o'r gronfa ddewisol. Roedd y pwyllgor wedi derbyn adborth positif iawn am y cyfraniad yn enwedig ei fod yn gallu cael ei rannu cyn y Nadolig.

Adroddwyd fod y trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd yn parhau gyda nifer o dderbynwyr yn sefydlog.

Bydd angen trefnu cyfarfod yn y dyfodol agos i drefnu trafodaethau ar gyllideb y cynllun.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1260. I gymeradwyo praesept ar gyfer 2024 / 2025**

**Penderfynwyd:** Praesept ar gyfer 2024 / 2025 yn £85,000

**1261. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C23/0987/23/CC
**Math o Gais:** Gwaith i goed wedi'u hamddiffyn
**Bwriad:** Gwaith i goed sydd yn destyn gorchymyn gwarchod coed.
**Ymgeisydd:** Park Holidays (Park Holidays UK Ltd)
**Asiant:** Phil Brophy (Barrell Treecare)
**Cyfeiriad:** Bryn Teg Caravan Park, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RF
**Cyfeirnod Grid:** 254407.76, 362238.35
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

Fe ddatgelodd y Cynghorydd Ann Lawton fuddiant personol yn yr eitem yma ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad ond sicrhau fod coed yn cael eu plannu yn eu lle

Daeth y cyfarfod i ben am 19:35

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 20 Chwefror 2024